

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion (Llwybr Strôc) 2021-22

Cylch Gorchwyl

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹ yn sail i'n gwaith ac rydym yn cyfrannu at y nodau llesiant gyda ffocws penodol ar Gymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Yn ein rôl, rydym yn gwirio bod gofal iechyd yng Nghymru'n mwyafu llesiant meddyliol a chorfforol pobl dros y tymor hir, gan ganolbwyntio ar y risgiau a berir i ansawdd gofal iechyd i bobl a chymunedau wrth iddynt gael mynediad i wasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt.

Wrth i wasanaethau iechyd a gofal ledled Cymru barhau i fodloni heriau'r pandemig COVID-19, mae hyn wedi rhoi pwysau unigryw a digyffelyb ar y system a fydd yn parhau drwy fisoedd y gaeaf a'r tu hwnt. Bydd yr adolygiad yn ymwybodol o sut mae gwasanaethau wedi addasu a newid i ymdopi â'r pwysau hyn, wrth ystyried ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd sy'n cael eu cyflenwi.

Cefndir

Yn ei gynllun gweithredol ar gyfer 2021-22, gwnaeth AGIC ymrwymo i raglen adolygu sy'n ystyried y risgiau a'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd wrth iddynt barhau gyda'u hymateb i'r pandemig ac adfer ar ei ôl.

Gall llif cleifion aneffeithiol ac aneffeithlon gael effaith sylweddol ar ansawdd a diogelwch gofal cleifion. O ganlyniad, rydym yn dymuno cael mwy o ddealltwriaeth o'r heriau y mae gwasanaethau iechyd yn eu hwynebu mewn perthynas â sut mae cleifion yn llifo drwy'r system gofal iechyd, a phrofi a yw'r trefniadau ar gyfer llif cleifion yn gadarn. Byddwn hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau GIG Cymru'n mynd i'r afael â mynediad pobl i ofal aciwt ar yr adeg gywir ac a yw gofal yn cael ei dderbyn yn y lle cywir, gan bobl â'r sgiliau cywir, hyd at ryddhau amserol o wasanaethau ysbyty, gan gynnwys trosglwyddo gofal i wasanaethau eraill.

¹ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

O ganlyniad, rydym wedi penderfynu ymgymryd ag adolygiad cenedlaethol o lif cleifion. Er mwyn asesu effaith negyddol heriau llif cleifion ar ansawdd a diogelwch cleifion sy'n aros am asesiad a thriniaeth, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ein hadolygiad ar y llwybr strôc. Rydym am ddeall yr hyn sy'n cael ei wneud i liniaru unrhyw niwed i'r rheiny sy'n aros am ofal, yn ogystal â deall sut mae ansawdd a diogelwch gofal yn cael eu cynnal drwy'r llwybr strôc.

Byddwn yn adolygu llif cleifion drwy'r llwybr strôc. Mae llif cleifion yn cyfeirio at allu systemau gofal iechyd i reoli cleifion yn effeithiol a heb fawr o oedi wrth iddynt symud drwy gamau gofal, hyd at gael eu rhyddhau. Mae strôc yn gyflwr cymhleth ac mae asesiad, triniaeth ac adferiad amserol yn gofyn am gymorth gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol sydd â gwybodaeth a sgiliau arbenigol.

Mae canlyniadau llif gwael yn amlwg, a gallant gynnwys:

- Amser ymateb ambiwlansiau i alwadau
- Oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansiau
- Gorlenwi mewn adrannau brys
- Cleifion yn cael eu cyflwyno fel 'allgleifion' i wardiau nad ydynt fwyaf addas i reoli eu gofal, sydd efallai'n golygu y byddant yn cael canlyniadau clinigol gwaeth
- Gall gwasanaethau gofal symudadwy, unedau penderfyniadau clinigol, hyd yn oed labordai cathetr neu unedau theatr neu endosgopi lenwi â chleifion sy'n aros i fynd i'r ward
- Caiff cleifion mewnlol eu symud rhwng wardiau i wneud lle am gleifion newydd
- Mae gan y staff ormod o waith ac mae gweithgareddau arferol yn arafu'n sylweddol
- Gall canlyniadau clinigol fod yn llawer gwaeth, yn enwedig i bobl hŷn a bregus, sy'n dioddef mwy o ddigwyddiadau niwed ac sy'n gallu gwaethygu oherwydd cyfnodau estynedig mewn gwelyau yn yr ysbyty

Gall oedi o ran rhyddhau a galw cynyddol am welyau hefyd gyfrannu at lif gwael. Mae systemau iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi mabwysiadu arfer gorau i wella llif yn gallu ymdopi'n well â phwysau allanol na'r rheiny nad ydynt wedi gwneud hyn.

Rydym yn cydnabod bod pwysau drwy'r llwybr strôc i gyflenwi gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u bod yn ymwneud â'r canlynol:

- Mynediad amserol i ofal effeithiol, gan gynnwys trosglwyddo i'r ysbyty, asesu, ymyriadau diagnostig allweddol, thrombolysis a/neu thrombectomi
- Cyflwyniad amserol i ward/uned strôc aciwt (neu ward berthnasol arall), a gofynion gofal aciwt eraill
- Asesiadau a thriniaeth therapiwtig amserol
- Adferiad ar ôl strôc a pharatoi ar gyfer bywyd ar ôl cael strôc

- Rhyddhau â phwysau gofal cymdeithasol, mynediad i therapïau gofynnol, a sicrhau'r cymorth cywir

Roedd ein penderfyniad i ymgymryd â'r adolygiad hwn yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys ein ffynonellau gwybodaeth a ffynonellau data eraill, adroddiadau yn y cyfryngau, a'r materion a nodwyd drwy ein harolygiadau blaenorol o adrannau brys ac yn ein dau adolygiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn 2019-20² ac yn 2020-21.³

Gwnaeth ein hadolygiad diweddaraf o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru dynnu sylw at sut gall materion llif cleifion, megis tagfeydd yn y system a phroblemau rhyddhau, effeithio'n negyddol ar argaeledd gwelyau o fewn adrannau brys, oherwydd na all adrannau drosglwyddo cleifion i wardiau oherwydd diffyg argaeledd gwelyau yn y wardiau. Gwnaeth yr adolygiad sôn bod oedi o ran trosglwyddo cleifion yn ganlyniad materion llif cleifion systemig ehangach drwy systemau gofal iechyd y GIG a gwasanaethau gofal iechyd. Gall hefyd gynyddu'r risg i bobl sy'n aros am ambiwlans yn y gymuned, gyda llai o ambiwlansiau ar gael i ymateb i'w hanghenion.

Ystyriaeth o waith gan sefydliadau eraill

Rydym yn ymwybodol bod llawer o ffocws ar yr heriau sy'n wynebu llif cleifion, ac ar draws gwasanaethau strôc yng Nghymru. Felly, byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â gwaith pobl eraill.

Yn ei 'Rhaglen Lywodraethu'⁴ 2021-2026, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y lle cywir, y tro cyntaf. Mae wedi datblygu 'chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng'⁵ fel disgwyliadau i'r system iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn galluogi cyflawniad ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu rhaglen i ganolbwyntio ar gyflawni nod 5 (rhoi'r gofal gorau posibl i'r claf ar ôl ei dderbyn yn yr ysbyty) a 6 (dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty), gyda'r bwriad o alluogi gwelliant o ran llif cleifion drwy'r system ysbyty ac allan i'r gymuned.

² [Adroddiad adolygu lleol AGIC ar Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – Asesiad o Drefniadau Rheoli Cleifion mewn Canolfannau Cyswllt Clinigol Gwasanaethau Meddygol Brys](#)

³ [Adroddiad adolygu lleol AGIC ar Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – Adolygiad o Ddiogelwch, Preifatrwydd, Urddas a Phrofiad Cleifion wrth aros mewn Ambiwlansys pan fydd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal](#)

⁴ Mae'r rhaglen yn nodi'r ymrwymadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae modd gweld copi o'r Rhaglen Lywodraethu [yma](#).

⁵ [Chwe nod ar gyfer gofal brys](#)

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei rhaglen pum mlynedd⁶ i wella ansawdd gwasanaethau strôc a'u canlyniadau. Mae'n amlinellu sut y bydd gwasanaethau'n newid i wella ansawdd gofal a lleihau amrywiadau mewn gofal ledled Cymru.

Cwmpas a methodoleg

Bydd ffocws cyffredinol yr adolygiad ar lif cleifion, gan ganolbwyntio ar y llwybr strôc, o ofyn am ambiwlans neu bobl yn mynd i adran frys ar eu pen eu hunain, hyd at ryddhau o'r ysbyty neu drosglwyddo gofal i wasanaethau eraill.

Mae ein hymchwil ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r trydydd sector wedi helpu i lywio'r prif gwestiynau y bydd ein hadolygiad yn ceisio eu hateb. Hynny yw:

- Sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn sicrhau bod mynediad a thriniaeth amserol yn cael eu darparu ar y llwybr strôc?
- Pa gamau y mae gwasanaethau gofal iechyd yn eu cymryd i sicrhau y darperir gofal diogel ac effeithiol o safon ar bob cam gofal, gan leihau effaith oedi?
- Pa fesurau y mae gwasanaethau gofal iechyd yn eu cymryd i sicrhau y gall cleifion gael eu rhyddhau'n effeithiol ac yn ddiogel o wasanaethau ysbyty?

Drwy'r adolygiad, byddwn yn archwilio'r canlynol:

- Profiadau pobl sy'n cael mynediad i ofal a thriniaeth ar gyfer strôc, gan ganolbwyntio ar agweddau allweddol ar lif cleifion, ar bob cam gofal, o asesu i ryddhau
- Yr effaith y gall llif cleifion ei chael ar ganlyniadau i gleifion

Bydd hefyd yn archwilio:

- Y prosesau sydd ar waith ar gyfer rheoli llif cleifion drwy systemau gofal iechyd
- Taith y claf drwy'r llwybr strôc

Bydd y gwaith yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiad o ddata cenedlaethol a lleol
- Arolygon cyhoeddus a phroffesiynol cenedlaethol
- Cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a'r trydydd sector
- Gwaith maes sy'n canolbwyntio ar astudiaethau achos ôl-syllol ac achosion cyfredol o bobl sy'n teithio ar hyn y llwybr strôc, a fydd yn cynnwys y 12 mis cyn y pandemig COVID-19, yn ystod y pandemig, ac ar adeg ein gwaith maes

⁶ [Y datganiad ansawdd ar gyfer strôc](#)

Drwy ein gwaith maes, byddwn yn ceisio penderfynu'r graddau y mae gwasanaethau'n cyflenwi'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg.⁷ Byddwn hefyd yn ystyried y graddau y gall gwasanaethau ddangos tegwch mynediad i gleifion a'r graddau y maent yn gweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thegwch o ran canlyniadau.

Gweithio gyda sefydliadau eraill

Byddwn yn ceisio cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Uned Cyflawni'r GIG, yr Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cynghorau Iechyd Cymuned a sefydliadau trydydd sector, er mwyn deall rhaglenni gwaith parhaus ac i helpu i ymgysylltu â phobl sydd wedi teithio ar hyd y llwybr strôc, er mwyn deall eu profiadau ledled Cymru.

Byddwn yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn ar adegau allweddol drwy gydol yr adolygiad, i rannu cynllunio a sicrhau bod unrhyw gyfleoedd cydweithio'n cael eu harchwilio i osgoi dyblygu ymdrech yn ddiangen ac i rannu canfyddiadau yn dilyn cwblhau'r gwaith maes.

Cynllunio

Rydym wedi sefydlu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid i lywio'r adolygiad. Bydd yn darparu cymorth a chynghor i'n bwrdd prosiect mewnol ar weithrediad beunyddiol yr adolygiad yn ôl y gofyn.

Amserlenni

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys amserlen prosiect amcangyfrifedig ar gyfer yr adolygiad.

Tasg	Amser
Ymchwilio a chwmpasu	Hydref – Tachwedd 2021
Byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – hunanasesiad Cynllunio arolygon	Rhagfyr 2022
Cynllunio gwaith maes	Ionawr 2022
Gwaith maes	Chwefror 2022 – Mehefin 2022
Cyhoeddi'r adroddiad	Tachwedd – Rhagfyr 2022

Dadansoddiad ac adrodd

⁷ Yn syml, ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu newid mewn diwylliant sy'n tynnu'r cyfrifoldeb oddi wrth ddefnyddiwr y gwasanaeth i ofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Caiff tudalen we ddynodedig ar gyfer yr adolygiad ei datblygu ar ein gwefan, a chaiff hon ei defnyddio i ddarparu diweddariadau ar ganfyddiadau allweddol o'r adolygiad cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol tuag at ddiwedd 2022. Gall yr adroddiad wneud argymhellion ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i'w hystyried a gweithredu arnynt.

Os bydd unrhyw bryderon brys yn cael eu nodi yn ystod yr adolygiad, caiff y rhain eu codi'n brydlon gyda byrddau iechyd, darparwyr gwasanaethau neu Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddi ac ymgysylltu

Caiff unrhyw adroddiadau ar y prif bwyntiau eu cyhoeddi ar wefan AGIC a chaiff strategaeth gyfathrebu ei datblygu i wella amlygrwydd.

Byddwn hefyd yn defnyddio nifer o offerynnau a sianeli cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o sut y gall pobl gymryd rhan yn yr arolwg cenedlaethol ac mewn gweithgareddau ymgysylltu. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol terfynol, ystyrir cynnal digwyddiadau dilynol, ymgysylltu a dysgu.

Data personol

Mae'r adolygiad hwn yn ffurfio rhan o'n gwaith i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC gynnal arolygon, adolygiadau ac ymchwiliadau yn y GIG neu mewn gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y GIG.

Lle'r ydym yn prosesu data personol, mae hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Ceir rhagor o wybodaeth yn hysbysiad preifatrwydd AGIC ar ein gwefan yn <https://agic.org.uk/polisi-preifatrwydd>.